



Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Economi ac Amgylchedd

Diogelwch Tai a Gwarchodaeth Amgylcheddol

Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2023

I fodloni Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021
Rheolaeth Ansawdd Aer Lleol

Dyddiad: Medi 2023

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Gwybodaeth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Swyddog Awdurdod Lleol	Peter Oates
Adran	Economi ac Amgylchedd Diogelwch Tai a Gwarchodaeth Amgylcheddol
Cyfeiriad	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Y Ganolfan Ddinesig Pont-y-pŵl NP4 6YB
Ffôn	01633 647290
E-bost	peter.oates@torfaen.gov.uk
Cyfeirnod yr adroddiad	TCBC PR 2023
Dyddiad	Medi 2023

Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn Ein Hardal

Ansawdd Aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Daw llygredd aer o gyflwyno amrywiaeth o sylweddau i'r atmosffer o amrywiaeth eang o ffynonellau. Gall gael effeithiau tymor byr a thymor hir ar iechyd, ond hefyd ar yr amgylchedd ehangach. Mae ansawdd aer yng Nghymru yn well yn gyffredinol nawr nag ar unrhyw adeg ers cyn y Chwyldro Diwydiannol.

Mae'r gwelliannau yma wedi eu sicrhau trwy gyflwyno deddfwriaeth sy'n gorfodi rheolaeth dynnach ar allyriadau llygrwyr o ffynonellau allweddol, diwydiant, tanwydd domestig a thrafnidiaeth yn fwyaf nodedig. Serch hynny, er gwaethaf y gwelliannau sydd wedi eu gwneud, mae llygredd yr aer yn dal i gael ei gydnabod fel risg i iechyd, ac mae nifer o bobl yn bryderus am lygredd yn yr aer y maen nhw'n anadlu.

Mae ystadegau'r llywodraeth yn amcangyfrif bod llygredd aer yn y DU yn gostwng disgwyliad einioes pob person 7-8 mis ar gyfartaledd, gyda chost gysylltiol o hyd at £20 biliwn y flwyddyn. Mae deddfwriaeth a pholisïau wedi eu hanelu at leihau ymhellach ac olrhain effaith llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd wedi eu cyflwyno yn Ewrop, y DU a Chymru.¹

Gall Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA's) gael eu datgan pan fo yna dorri neu pan fo'n debygol y bydd yna dorri amcan ansawdd aer. Yn 2019 yn Nhorfaen, torrodd un tiwb tryledu unigol, sy'n monitro ansawdd aer, yr amcan cenedlaethol o $40 \mu\text{g}/\text{m}^3$ gyda chyfartaledd blynyddol o $47 \mu\text{g}/\text{m}^3$. Penderfynodd yr awdurdod lleol bod angen mwy o wybodaeth a data arnom ni er mwyn deall maint gofodol unrhyw dorri posibl o'r amcan cenedlaethol, cyn symud ymlaen i ddatgan AQMA. Yn 2020 ehangwyd y rhwydwaith tiwbiau tryledi o gwmpas y 'man poeth' a nodwyd ac, er nad oedd canlyniadau 2020 yn datgelu unrhyw dorri pellach ar amcanion cenedlaethol, fe wnaethom ni ystyried bod y gostyngiadau mewn lefelau llygredd traffig oherwydd amgylchiadau clo'r pandemig wedi rhoi canlyniadau anarferol. Edrychwyd ar gymariaethau o lefelau llygredd traffig rhwng blynyddoedd gydag a heb gyfnodau clo yn atodiadau Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Torfaen 2021.

Mae Cyngor Torfaen yn monitro oson, gronynnau ac ocsidau nitrogen yn barhaus mewn safle awtomatig, cefndir trefol, yn ysgol uwchradd Croesyceiliog. Pob mis yn 2022, gosodon ni 28 o diwbiau tryledu goddefol ar byst lamp i fonitro nitrogen deuocsid yn y fwrdeistref.

Roedd gan y safle awtomatig lefel uchel o ddata'n gyson ar gyfer gronynnau ac ocsidiau Nitrogen. Doedd y casgliad data ar gyfer monitor Oson ddim mor uchel â blynyddoedd cynt oherwydd gollwng a olygodd bod gwerth dros 3 mis o ddata wedi ei wrthod fel rhan o'r broses wirio. O'r 327 o diwbiau tryledu a osodwyd yn ystod y flwyddyn, aeth 3 ar goll.

Yn 2022, parhaon ni gyda'n hastudiaeth cyd-leoliad ar gyfer nitrogen deuocsid yn y safle Cefndir Trefol awtomatig. Roedd hyn yn golygu gosod tri o'r tiwbiau tryledu yn agos at fewndwll samplau'r orsaf awtomatig. Mae canlyniadau'r gwahanol fathau o fonitro yn cael eu cymharu wedyn a cheir cyfrif o'r addasiadau priodol ar gyfer bias. Mae'r addasiadau yma'n cael eu defnyddio wedyn wrth gyfrif canlyniadau tiwbiau tryledu ar gyfer yr adroddiad yma.

Mae data monitro'n dangos bod tueddiadau cefndirol gronynnau ers 2004 yn weddol sefydlog. Mae nitrogen deuocsid cefndirol wedi bod yn weddol sefydlog ers 2006.

Mae canlyniadau tiwbiau tryledu 2022 yn debyg iawn i rai 2021 ac nid ydynt wedi ailadrodd torri'r amcan cenedlaethol fel cafwyd yn 2019.

I orffen, nid yw canlyniadau monitro 2022 yn dangos unrhyw dorri ar yr amcanion cenedlaethol.

[¹ Gwefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru](#)

Camau i wella Ansawdd Aer

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi datgan unrhyw AQMA eto ac mae'n parhau i fonitro'r 'man poeth' a nodwyd yn 2019. Nid yw canlyniadau 2022 ar gyfer yr ardal hon wedi mynd dros ben amcanion cenedlaethol. Mae lefelau isel o lygredd traffig yn gyffredinol yng ngweddill y fwrdeistref. Yn Nhachwedd 2022 a gosodwyd synhwyrdd ansawdd aer Praxis/Urban ar yr un postyn â'r tiwb tryledu a gofnododd mynd dros ben y lefelau Nitrogen Deuocsid yn 2019. Ystyrir bod y synhwyrdd yn ddull mwy cywir o fonitro na thiwbiau tryledu ac mae'n monitro gronynnau yn ogystal â Nitrogen Deuocsid.

Mae ansicrwydd o 25% gan diwbiau tryledu, ac ansicrwydd o 15% gan y synhwyrdd. Ni fydd data'r synhwyrdd yn cael ei ddefnyddio i asesu'n ffurfiol

cydymffuriad gydag amcanion cenedlaethol ond bydd yn gymorth gyda gwneud penderfyniadau o gylch ansawdd aer lleol.

Bydd canlyniadau o'r synhwyrdd yn cael eu cyflwyno yn adroddiad y flwyddyn nesaf pan fydd gyda ni ddata blwyddyn gyfan. Mae canlyniadau cychwynnol yn awgrymu lefelau ychydig yn is na chanlyniadau'r tiwbiau tryledu, felly maen nhw hefyd yn dangos na chafodd unrhyw amcan ei dorri, er bod angen data pellach o ddata 2023 y synhwyrdd er mwyn cadarnhau hyn.

Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio cynnal a gwella ansawdd presennol yr aer yn yr ardal, trwy berthnasau gwaith rhwng Llywodraeth Cymru, adrannau eraill yn y Cyngor a sefydliadau allanol, craffu agos ar sail lechyd Cyhoeddus ar geisiadau cynllunio sydd o bosibl yn niweidiol i ansawdd yr aer, monitro terfynau allyriadau Trwyddedau Amgylcheddol ochr yn ochr â rheoleiddio a gorfodaeth Niwsans Statudol a'r Ddeddf Aer Glân.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen hefyd yn gweithio gyda diwydiant lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru trwy'r drefn Trwyddedu Amgylcheddol i helpi i reoli ansawdd aer. Mae'r Cyngor hefyd yn chwarae rhan weithgar yn fforwm Ansawdd Aer Cymru.

Mae'r tîm lechyd Cyhoeddus yn ymdrin â chwynion o niwsans trwy losgi, mwg tywyll a du ac yn rhoi cyngor am danwydd priodol ar gyfer stofiau llosgi pren domestig. Mae'r Cyngor hefyd ynghlwm wrth nifer o gynlluniau i wella seilwaith gwyrdd, hyrwyddo teithio llesol a gwella'r llwybrau teithio llesol yn y fwrdeistref .

Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awyddus i gynyddu ei ddealltwriaeth o ansawdd aer yn y fwrdeistref. Ers 2016 mae'r Cyngor wedi ehangu'r rhwydwaith tiwb tryledu pob blwyddyn o 13 tiwb yn 2016 at 28 tiwb yn 2022.

Rydym wedi gosod synhwyrdd ansawdd aer yn yr ardal sy'n dangos y llygredd uchaf sy'n deillio o draffig yn y fwrdeistref, a bydd canlyniadau hyn i'w gweld yn adroddiad 2024.

Mae Torfaen yn parhau gydag astudiaeth cyd-leoliad am nitrogen deuocsid yn safle Crownbridge Cwmbrân, caiff y ffigyrau addasiad ar gyfer bias a geir o'r astudiaeth hon eu defnyddio i gyfrif y cyfartaleddau blynyddol yn yr adroddiad cynnydd yma.

Sut i Gymryd Rhan

Mae gwybodaeth bellach am ansawdd aer yn Nhorfaen ac yn gyffredinol ar gael trwy fynd at adran ansawdd aer ein gwefan yma;

[Gwefan Cyngor Torfaen \(adran llygredd\)](#)

Trwy ymweld â gwefan ansawdd aer Llywodraeth Cymru yma;

[Safle Cwmbrân ar wefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru](#)

[Gwefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru](#)

Os oes gyda chi gwestiynau penodol, gallwch gysylltu â'r tîm Iechyd Cyhoeddus trwy e-bost;

public.health@torfaen.gov.uk

Fel arall, ffoniwch ni trwy 01495 762200.

Mae adroddiadau blaenorol a chyfieithiadau Cymraeg o grynodedbau gweithredol i'w gweld ar

[wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#)